Senedd Cymru
**Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig**

# Bwletin y Pwyllgor
Hydref 2023 – Gwanwyn 2024

## Croeso i chwedched bwletin y Pwyllgor

Dyma'r chwedched bwletin ar gyfer Pwyllgor yr Economi, Masnach a Materion Gwledig y Senedd. Mae'n rhoi trosolwg o waith diweddaraf y Pwyllgor a'r gwaith sydd ganddo ar y gweill, er mwyn eich helpu i gael y wybodaeth ddiweddaraf am waith y Pwyllgor ac i ymgysylltu ag ef.

Cafodd ei baratoi gan y tîm Clercio sy'n cynorthwyo'r Pwyllgor. Os oes gennych unrhyw sylwadau, rhowch wybod i ni drwy ddefnyddio'r manylion cyswllt isod.

### Manylion cyswllt


Gallwch anfon e-bost at Dîm Clercio'r Pwyllgor:
SeneddEconomi@senedd.cymru

Ffoniwch ni: 0300 200 6565

Dilynwch ni ar Twitter: @SeneddEconomi

Gwefan: https://senedd.cymru/pwyllgorau/pwyllgor-yr-economi-masnach-a-materion-gwledig/

## Gwaith presennol

## Craffu ar y Gyllideb

Bydd y Pwyllgor yn dechrau tymor y gwanwyn gyda gwaith craffu ar Gyllideb Ddrafft Llywodraeth Cymru ar gyfer 2024-25 a bydd yn cyflwyno adroddiad erbyn dydd Llun 5 Chwefror mewn pryd ar gyfer dadl yn y Cyfarfod Llawn ar y Gyllideb Ddrafft ddydd Mawrth 6 Chwefror.

## Banc Datblygu Cymru

Mae'r Pwyllgor yn cynnal ymchwiliad i Fanc Datblygu Cymru a bydd yn cynnal sesiynau tystiolaeth lafar yng ngwanwyn 2024.

Mae ymgynghoriad yn mynd rhagddo ar hyn o bryd ac mae disgwyl iddo barhau tan 4 Ionawr 2024.

## Ymchwil a Datblygu

Cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad fel rhan o ymchwiliad undydd i Ymchwil a Datblygu, rhwng 4 Hydref a 15 Tachwedd, a chafodd 15 o ymatebion.

Yn ei gyfarfod ar 30 Tachwedd, cafodd y Pwyllgor dystiolaeth lafar gan gyrff cyllido, sefydliadau addysg uwch, a busnesau.

Cyhoeddir adroddiad byr yn 2024.

## Ynni Niwclear ac Economi Cymru

Cynhaliodd y Pwyllgor ymchwiliad undydd yn ei gyfarfod ar 26 Hydref a chafodd dystiolaeth gan y diwydiant Niwclear ac undebau, cwmnïau datblygu niwclear, Cyngor Sir Ynys Môn ac Uchelgais Gogledd Cymru, ac academyddion.

Cyhoeddir adroddiad byr yn Ionawr 2024.

## Dyfodol Dur yng Nghymru

Cynhaliodd y Pwyllgor gyfres o sesiynau tystiolaeth yn canolbwyntio ar ddyfodol dur yng Nghymru. Clywodd gan Ysgrifennydd Gwladol Cymru yn ei gyfarfod ar 28 Medi 2023. Yna clywodd y Pwyllgor dystiolaeth gan Weinidog yr Economi yn ei gyfarfod ar 11 Hydref 2023, ac yna cyfarfu â'r undebau llafur - GMB, Unite, a Community Union yn ei gyfarfod ar 30 Tachwedd.

## Costau Byw

Roedd ffocws y Pwyllgor ar sgiliau yn cynnwys gwneud gwaith dilynol ar ei waith ar bwysau Costau Byw a chynnydd gyda'r Warant i Bobl Ifanc. Ar 28 Medi clywodd yr Aelodau gan Gyrfa Cymru, darparwyr hyfforddiant, a CLlLC, yn dilyn y sesiwn Pwysau Costau Byw a'r Gwarant i Bobl Ifanc a gynhaliwyd ar 24 Tachwedd 2022.

Ysgrifennodd y Pwyllgor at Lywodraeth Cymru i wneud gwaith

dilynol ar 26 Hydref a chafodd ymateb ar 23 Tachwedd.

### Gweithgareddau diweddar

## Bargeinion Dinesig a Thwf


Yn ei gyfarfod ar 13 Medi cafodd y Pwyllgor y wybodaeth ddiweddaraf am weithgarwch Bargen Ddinesig a Thwf ym mhob un o bedwar rhanbarth economaidd Cymru:

Bargen Dwf Canolbarth Cymru
Bargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd
Bargen Ddinesig Bae Abertawe
Bargen Twf y Gogledd

## Masnach a Phorthladdoedd

Yn dilyn ymweliad yr Aelodau â Phorthladd Caergybi ym mis Mehefin, cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn ar Fasnach a Phorthladdoedd y tymor hwn. Bu'r Pwyllgor yn trafod Model Gweithredu Targed y Ffin a Fframwaith Windsor gyda Gweinidog yr Economi, Katy Hayward, Athro mewn Cymdeithaseg Wleidyddol ym Mhrifysgol Queens Belfast, ac Andrew Potter, Athro mewn Trafnidiaeth a Logisteg ym Mhrifysgol Caerdydd ar 11 Hydref.

## Cyllid datblygu rhanbarthol ar ôl gadael yr UE




Cyhoeddodd y Pwyllgor ei adroddiad ar Gyllid datblygu rhanbarthol ar ôl gadael yr UE ar 12 Medi 2023.

Cafodd y Pwyllgor ymatebion i'w argymhellion gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Cynhaliwyd dadl yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 8 Tachwedd 2023.

## Ymweld â Brwsel



Ymwelodd Aelodau'r Pwyllgor â Brwsel ar 15 ac 16 Tachwedd.

Prif ddiben yr ymweliad oedd cynnal cenhadaeth canfod ffeithiau, i gwrdd ag Aelodau o Senedd Ewrop a sefydliadau allweddol sy'n gweithio mewn meysydd sy'n ymwneud â chylch gwaith y Pwyllgor, gan gynnwys masnach, amaethyddiaeth, pysgodfeydd, ac ymchwil a datblygu.

Cyfarfu'r aelodau hefyd â chynrychiolwyr o Genhadaeth y DU i'r UE (UKREP), llywodraethau a sefydliadau y mae gan Lywodraeth Cymru bartneriaethau strategol â hwy. Roedd y rhain yn cynnwys:

- François Alfonsi ASE - Aelod o'r Pwyllgor Datblygu Rhanbarthol a'r Pwyllgor Materion Tramor.
- Louisa Santos – Dirprwy Gyfarwyddwr Business Europe, Zoe Compston – Cynghorydd Nwyddau, Iechyd a'r Amgylchedd, Cenhadaeth y DU i'r UE
- Eleanor Vaughan - Pennaeth y Swyddfa, a Gavin Lewis, Pennaeth Polisi Economaidd, Cymdeithasol a Rhanbarthol, Swyddfa Llywodraeth Cymru ym Mrwsel
- Branwen Miles – Uwch Gynghorydd Polisi, Oana Negu – Cyfarwyddwr Materion Cyffredinol, Ksenija Simovic – Uwch Gynghorydd Polisi Masnach a Materion Rhyngwladol, Niall Curley – Pridd a Bioamrywiaeth, Thomas Sanchez – Da Byw a Lles Anifeiliaid Interim a Ffytoiechydol - Copa-Cogeca, corff cynrychioliadol Ewropeaidd ar gyfer ffermio ac undebau ffermio
- Katy Adams – Uwch Swyddog Polisi, Biwro Amaethyddol Prydain
- Fergus McReynolds - Cyfarwyddwr Materion yr UE, Sefydliad Allforio a Masnach Ryngwladol
- Catherine Marston – Swyddog Datblygu Strategol, Addysg Uwch Cymru Brwsel.

Trafodwyd ystod eang o faterion yn ystod yr ymweliad. Roedd y rhain yn cynnwys y berthynas rhwng Cymru, y DU a'r UE, y Cytundeb Masnach a

Chydweithredu gan gynnwys agweddau ar bysgodfeydd, y Model Gweithredu Targed y Ffin; cynrychiolaeth Cymru ar Grŵp Cynghori Domestig y DU, a materion yn ymwneud â thariffau a rheolau tarddiad ar fatris a cherbydau trydan; Materion amaethyddol gan gynnwys diwygio'r Polisi Amaethyddol Cyffredin, mesurau adfer natur a'r agenda cynaliadwyedd, a chyfwerthedd cynnyrch organig; ac Addysg Uwch ac ymchwil ac arloesi, gan gynnwys rhaglen gyfnewid ryngwladol Taith, a chyfleoedd i gydweithio drwy raglen Horizon.

Helpodd yr ymweliad hwn i gryfhau cysylltiadau rhwng y Pwyllgor a phwyllgorau eraill tebyg yn yr UE, a sefydliadau perthnasol ar lefel Ewropeaidd.

## Cynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE



Mae Cadeirydd y Pwyllgor wedi cael ei gynrychioli am yn ail gan Luke Fletcher a Sam Kurtz ar Gynulliad Partneriaeth Seneddol y DU a'r UE. Mae Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad, Huw Irranca-Davies AS, hefyd yn mynd. Cynhaliwyd y cyfarfod diweddaraf yn Nhŷ'r Arglwyddi ar 5 a 6 Rhagfyr a bydd adroddiad o'r cyfarfod hwnnw'n cael ei gyhoeddi maes o law. Nodwyd yr adroddiad diwethaf gan y Pwyllgor ar 26 Hydref ac ymateb y Prif Weinidog ar 30 Tachwedd.

## Craffu Cyffredinol ar Waith y Gweinidogion

Mae'r Pwyllgor yn parhau i gynnal sesiynau craffu rheolaidd gyda'r Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd, a Gweinidog yr Economi.

Cynhaliodd y Pwyllgor sesiwn graffu gyffredinol gyda'r ddau Weinidog ddydd Mercher 13 Rhagfyr.

### Blaenraglen waith

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno ar ei raglen waith hyd at wanwyn 2024. Mae'r rhaglen waith a gyhoeddwyd yn nodi amcanion y Pwyllgor adeg ei chyhoeddi, ond gall y rhaglen newid ar unrhyw adeg er mwyn ymateb i ddigwyddiadau allanol. Disgwylir i waith y Pwyllgor gynnwys edrych ar y Cynllun Ffermio Cynaliadwy a chymorth i ffermwyr, gan gynnwys cynllun Cynefin Cymru a Chyswllt Ffermio; yr Economi Werdd a sgiliau sero net; cymorth ar gyfer prentisiaethau; Dyfodol Dur Cymru; mynediad at fancio; a materion masnach gan gynnwys gweithredu

Fframwaith Windsor, Model Gweithredu Targed y Ffin a chytundebau masnach.

# Cylch gorchwyl

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 23 Mehefin 2021, gyda chylch gorchwyl yn cwmpasu (ond heb fod yn gyfyngedig i): datblygu economaidd, adfywio, sgiliau, masnach, ymchwil a datblygu (gan gynnwys technoleg a gwyddoniaeth), a materion gwledig.

# Aelodau'r Pwyllgor



Cadeirydd y Pwyllgor: Paul Davies AS

Ceidwadwyr Cymreig



Hefin David AS

Llafur Cymru



Luke Fletcher AS

Plaid Cymru



Samuel Kurtz AS

Ceidwadwyr Cymreig



Vikki Howells AS

Llafur Cymru



Buffy Williams AS

Llafur Cymru